# Polisi Ymateb i Rhieni
# Ysgol Gyfun Gwent Is Coed

E-bost yr ysgol: **gwent.iscoed@newportschools.wales**
Rhif ffôn yr ysgol: **01633 851614**

**Polisi ymateb i rieni**
Oherwydd canllawiau cyfredol y llywodraeth ynghylch Covid, ac er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i unrhyw ymholiadau sydd gennych mewn modd effeithiol ac amserol, hoffem dynnu eich sylw at y polisi isod a gofyn am eich cefnogaeth wrth i ni ei weithredu.

**Bydd yr ysgol yn ymateb i rieni o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn e-bost, llythyr neu alwad ffôn.**

**Ni fydd modd gweld rhiant os byddant yn cyrraedd yr ysgol heb apwyntiad.**

**Disgwyliwn i rieni fod yn gwrtais bob amser yn ystod eu cyfathrebu â staff.**

**Galwadau ffôn**
Pan fydd rhiant yn cysylltu â'r ysgol dros y ffôn, bydd y swyddfa yn cymryd neges a bydd arweinydd Lles a Chynnydd eich plentyn yn dychwelyd yr alwad cyn gynted ag y bo' modd.

**E-bost**
Wrth gysylltu â'r ysgol drwy e-bost, gofynnwn i rieni ddefnyddio cyfeiriad e-bost yr ysgol (gweler uchod).

**Cyfarfodydd gyda rhieni**
Mae'r ysgol bob amser yn awyddus i gynnal cyfarfodydd gyda rhieni er mwyn datrys unrhyw faterion mewn modd amserol. Er mwyn sicrhau bod hyn yn bosibl, gofynnwn i rieni gysylltu â'r swyddfa ar y rhif arferol (gweler uchod) i drefnu apwyntiad gyda'r arweinydd Lles a Chynnydd perthnasol ar amser sy'n gyfleus i bawb. Os yn bosibl, bydd dau aelod o staff yn bresennol yn ystod cyfarfodydd, a bydd un ohonynt yn cymryd nodiadau a fydd yn cael eu hanfon at yr holl bartïon perthnasol. Ni fydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu recordio.
Gallwn gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, er gwaethaf y sefyllfa bresennol, a gofynnwn i bob rhiant barchu'r canllawiau Covid presennol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru drwy sicrhau eu bod yn:

- Cwblhau'r ffurflen 'tracio ac olrhain' yn y dderbynfa
- Gwisgo gorchudd wyneb bob amser ar y safle, oni bai eu bod wedi'u heithrio
- Bod yn ymwybodol o bellter cymdeithasol priodol.

**Arweinydd Lles a Chynnydd Blwyddyn 7: Miss Alis Lewis**

**Arweinydd Lles a Chynnydd Blwyddyn 8: Mr Geraint Davies**

**Arweinydd Lles a Chynnydd Blwyddyn 9: Mr Owen Morse**

**Arweinydd Lles a Chynnydd CA4: Mr Myfyr ap Tomos a Miss Annie Scourfield**

**Arweinydd Lles a Chynnydd Blwyddyn 12: Miss Siân Jenkins**

**Mrs Jennifer Browne yw'r Uwch Arweinydd Lles a Chynnydd a'r swyddog diogelu dynodedig.**

# Ysgol Gyfun Gwent Is Coed
# Responding to Parents Policy

**School email:** **gwent.iscoed@newportschools.wales**
**School phone number: 01633 851614**

**Responding to parents policy**

Due to current government guidelines regarding covid, and in order to ensure that we are able to respond to any queries you may have in an effective and timely manner, we would like to draw your attention to the following policy and ask for your support in its implementation.

**The school will respond to parents within 5 working days of receiving an email, letter or phone call.**
**It will not be possible for a parent to be seen if they arrive at school without an appointment.**
**We expect parents to be courteous at all times during their communication with staff.**

- **Telephone calls**
  When a parent contacts the school by telephone, the office will take a message and the Wellbeing and Progress lead for your child's year will return the call as soon as they can.
- **Email**
  If contacting the school by email, we would ask parents to use the school email address (see above).
- **Meetings with parents**
  The school will always endeavour to hold meetings with parents in order to resolve any issues in a timely manner. To ensure this is possible, we would ask parents to contact the office on the usual number (see above) to arrange an appointment with the relevant Wellbeing and Progress lead at a mutually convenient time. If possible, there will be two members of staff present during meetings, one of whom will take notes which will be forwarded to all relevant parties. These meetings will not be recorded.
  We are able to hold face to face meetings, despite the current situation, and we would ask that all parents respect the current covid guidelines issued by Welsh Government by:
  - Completing the 'track and trace' form in reception
  - Wearing a face covering at all times when on site, unless exempt
  - Being aware of appropriate social distancing

**Wellbeing and Progress Lead Year 7: Miss Alis Lewis**

**Wellbeing and Progress Lead Year 8: Mr Geraint Davies**

**Wellbeing and Progress Lead Year 9: Mr Owen Morse**

**Wellbeing and Progress Lead KS4: Mr Myfyr ap Tomos and Miss Annie Scourfield**

**Wellbeing and Progress Lead Year 12: Miss Siân Jenkins**

**Mrs Jennifer Browne is the Senior Wellbeing and Progress lead and the designated safeguarding officer.**